## YR ATODLEN

**Rheoliadau 2 a 3**

### *RHAN I*

**Tramgwyddau yng Nghymru a Lloegr**

**1.** Llofruddiaeth.

**2.** Dynladdiad.

**3.** Herwgipio.

**4.** Camgarcharu.

**5.** Tramgwydd o dan adran 16 o Ddeddf Tramgwyddau yn erbyn y Person 1861 (bygythion i ladd)(**1**).

**6.** Tramgwydd o dan adran 18, 20 neu 47 o'r Ddeddf honno (clwyfo ac achosi niwed corfforol).

**7.** Tramgwydd o dan adran 1 o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1933 (creulondeb i blant)(**2**).

**8.** Tramgwydd o dan adran 1 o Ddeddf Babanladdiad 1938 (babanladdiad)(**3**).

**9.** Tramgwydd o dan adran 1 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1956 (trais rhywiol)(**4**)).

**10.** Tramgwydd o dan adran 2 neu 3 o'r Ddeddf honno (caffael menyw drwy fygythion neu haeriad anwir).

**11.** Tramgwydd o dan adran 4 o'r Ddeddf honno (rhoi cyffuriau er mwyn sicrhau neu hwyluso cyfathrach).

**12.** Tramgwydd o dan adran 5 o'r Ddeddf honno (cyfathrach â merch o dan 13).

**13.** Tramgwydd o dan adran 6 o'r Ddeddf honno (cyfathrach â merch o dan 16).

**14.** Tramgwydd o dan adran 7 o'r Ddeddf honno (cyfathrach â pherson diffygiol)(**5**).

**15.** Tramgwydd o dan adran 9 o'r Ddeddf honno (caffael person diffygiol).

**16.** Tramgwydd o dan adran 10 o'r Ddeddf honno (llosgach gan ddyn).

**17.** Tramgwydd o dan adran 11 o'r Ddeddf honno (llosgach gan fenyw).

**18.** Tramgwydd o dan adran 12 o'r Ddeddf honno drwy gyflawni sodomiaeth â phlentyn o dan 16.

**19.** Tramgwydd o dan adran 13 o'r Ddeddf honno drwy gyflawni gweithred anwedduster dybryd gyda phlentyn.

**20.** Tramgwydd o dan adran 14 neu 15 o'r Ddeddf honno (ymosodiad anweddus).

**21.** Tramgwydd o dan adran 16 o'r Ddeddf honno (ymosodiad gyda'r bwriad o gyflawni sodomiaeth).

**22.** Tramgwydd o dan adran 17 o'r Ddeddf honno (herwgydio menyw drwy rym neu er mwyn ei heiddo).

**23.** Tramgwydd o dan adran 19 neu 20 o'r Ddeddf honno (herwgydio merch o dan 18 neu 16).

---

(**1**) 1861 p.100. Amnewidiwyd adran 16 gan Ddeddf Cyfraith Troseddau 1977 (p.45).
(**2**) 1933 p.12.
(**3**) 1938 p.36.
(**4**) 1956 p.69. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p.33).
(**5**) Diddymwyd adran 7 gan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959 (p.72).

**24.** Tramgwydd o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (herwgydio person diffygiol o riant neu warcheidwad) drwy gymryd plentyn allan o feddiant rhiant neu warcheidwad y plentyn.

**25.** Tramgwydd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno (peri i fenywod buteinio).

**26.** Tramgwydd o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (caffael merch o dan 21).

**27.** Tramgwydd o dan adran 24 o'r Ddeddf honno (cadw menyw mewn puteindy neu safle arall).

**28.** Tramgwydd o dan adran 25 neu 26 o'r Ddeddf honno (caniatáu i ferch o dan 13, neu rhwng 13 ac 16, ddefnyddio safle ar gyfer cyfathrach).

**29.** Tramgwydd o dan adran 27 o'r Ddeddf honno (caniatáu i berson diffygiol ddefnyddio safle ar gyfer cyfathrach).

**30.** Tramgwydd o dan adran 28 o'r Ddeddf honno (peri i ferch o dan 16 buteinio neu ei hannog i wneud hynny, neu beri i berson gael cyfathrach â merch o'r fath neu i ymosod yn anweddus arni neu annog person i wneud hynny).

**31.** Tramgwydd o dan adran 29 o'r Ddeddf honno (peri i berson diffygiol buteinio neu ei annog i wneud hynny) .

**32.** Tramgwydd o dan adran 30 o'r Ddeddf honno (dyn yn byw ar enillion puteindra).

**33.** Tramgwydd o dan adran 31 o'r Ddeddf honno (menyw yn arfer rheolaeth ar butain).

**34.** Tramgwydd o dan adran 128 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1959 (cyfathrach rywiol â chleifion)(**6**).

**35.** Tramgwydd o dan adran 1 o Ddeddf Anwedduster â Phlant 1960 (ymddygiad anweddus tuag at blentyn ifanc)(**7**).

**36.** Tramgwydd o dan adran 4 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1967 (caffael eraill i gyflawni gweithredoedd gwrywgydiol)(**8**) drwy—

(a) caffael plentyn i gyflawni gweithred sodomiaeth gydag unrhyw berson, neu

(b) caffael unrhyw berson i gyflawni gweithred sodomiaeth gyda phlentyn.

**37.** Tramgwydd o dan adran 5 o'r Ddeddf honno (byw ar enillion puteindra gwryw).

**38.** Tramgwydd o dan adran 9(1)(a) o Ddeddf Dwyn 1968 (byrgleriaeth)(**9**) drwy fynd i mewn i adeilad neu ran o adeilad gyda'r bwriad o dreisio plentyn.

**39.** Tramgwydd o dan adran 4(3) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971(**10**).

**40.** Tramgwydd o dan adran 54 o Ddeddf Cyfraith Troseddau 1977 (ysgogi merch o dan 16 oed i ymlosgach)(**11**)).

**41.** Tramgwydd o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 (ffotograffau anweddus o blant)(**12**).

**42.** Tramgwydd o dan adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**13**)) mewn perthynas â nwyddau y gwaherddir eu mewnforio o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau

(**6**) 1959 p.72.
(**7**) 1960 p.33.
(**8**) 1967 p.60. Diddymwyd adran 4(2) gan Ddeddf Cyfraith Troseddau 1977.
(**9**) 1968 p.60.
(**10**) 1971 p.38.
(**11**) 1977 p.45.
(**12**) 1978 p.37.
(**13**) 1979 p.2.

1876 (gwaharddiadau a chyfyngiadau mewn perthynas â phornograffi)(**14**) os oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anweddus o blant o dan 16 oed.

**43.** Tramgwydd o dan adran 1 o Ddeddf Herwgydio Plant 1984 (herwgydio plentyn gan riant)(**15**) neu adran 32(3) o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1969 (ysgogi etc. personau absennol(**16**)f).

**44.** Tramgwydd o dan adran 160 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (meddu ar ffotograff anweddus o blentyn)(**17**).

**45.** Tramgwydd o dan adran 14 o Ddeddf Plant 1958(**18**)), adran 16 o Ddeddf Plant Maeth 1980(**19**) neu adran 70 o'r Ddeddf (tramgwyddau mewn perthynas â maethu'n breifat).

**46.** Tramgwydd o dan adran 44(15), 49 neu 50(9) o'r Ddeddf (tramgwyddau rhwystro a thramgwyddau mewn perthynas â herwgydio plentyn mewn gofal).

**47.** Tramgwydd o dan adran 63(10), paragraff 1(5) o Atodlen 5 neu baragraff 2(3) o Atodlen 6 i'r Ddeddf (tramgwyddau mewn perthynas â chartrefi gwirfoddol a chartrefi plant)(**20**).

**48.** Tramgwydd o dan adran 78, 79D neu 79F(6) o'r Ddeddf (tramgwyddau mewn perthynas â gwarchod plant a gofal dydd)(**21**).

**49.** Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (manteisio ar ffydd)(**22**).

**50.** Tramgwydd mewn perthynas â chartref plant o dan ddarpariaethau canlynol Deddf 2000 neu yn rhinwedd y darpariaethau hynny—

(a) adran 11(1) (methu â chofrestru);

(b) adran 24 (methu â chydymffurfio ag amodau);

(c) adran 25 (torri rheoliadau);

(ch) adran 26 (disgrifiadau ffug o sefydliadau ac asiantaethau); neu

(d) adran 27 (datganiadau ffug mewn ceisiadau).

**51.** Tramgwydd—

(a) helpu, annog, cwnsela neu ysgogi person i gyflawni tramgwydd a bennir ym mharagraffau 1 i 50 o'r Atodlen hon, neu beri iddynt wneud hynny; neu

(b) cynllwynio neu geisio cyflawni tramgwydd o'r fath.

**Tramgwyddau yn yr Alban**

**52.** Tramgwydd trais rhywiol.

**53.** Llofruddiaeth.

**54.** Lladdiad beius.

**55.** Tramgwydd o dan adran 60(3), 61(3) neu 62(6) o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968 (tramgwyddau mewn perthynas â sefydliadau preswyl a sefydliadau eraill)(**23**)), neu yn rhinwedd un o'r adrannau hynny

(**14**) 1876 p.36.
(**15**) 1984 p.37.
(**16**) 1969 p.54.
(**17**) 1988 p.33.
(**18**) 1958 p. 65.
(**19**) 1980 p. 86.
(**20**) Mae darpariaeth ar gyfer diddymu'r darpariaethau hyn wedi'i chynnwys yn Neddf Safonau Gofal 2000.
(**21**) Mewnosodwyd adrannau 79D a 79F yn Neddf 1989 gan Ddeddf Safonau Gofal 2000.
(**22**) 2000 p.44.
(**23**) 1968 p.49.

**56.** Tramgwydd o dan adran 32(3) o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1969 (ysgogi etc. person absennol).

**57.** Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(**24**).

**58.** Tramgwydd cyfraith gwlad yn yr Alban, sef plagiwm (dwyn plentyn islaw oedran aeddfedrwydd).

**59.** Tramgwydd o dan adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 mewn perthynas â nwyddau y gwaherddir eu mewnforio o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876 (gwaharddiadau a chyfyngiadau mewn perthynas â phornograffi) os oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anweddus o blant o dan 16.

**60.** Tramgwydd o dan adran 52 neu 52A o Ddeddf Llywodraeth Ddinesig (Yr Alban) 1982 (tramgwyddau mewn perthynas â ffotograffau anweddus o blant)(**25**).

**61.** Tramgwydd o dan adran 6 o Ddeddf Herwgydio Plant 1984 (cymryd plentyn o'r Deyrnas Unedig neu ei anfon oddi yno).

**62.** Tramgwydd o dan adran 15 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 (tramgwyddau mewn perthynas â maethu'n breifat)(**26**).

**63.** Tramgwydd o dan adran 78 o'r Ddeddf (tramgwyddau mewn perthynas â gwarchod plant a gofal dydd).

**64.** Tramgwydd o dan adran 81, 83 neu 89 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995(**27**) neu adran 17(8) neu 71 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968(**28**)) (tramgwyddau llochesu).

**65.** Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (manteisio ar ffydd).

**66.** Tramgwydd mewn perthynas â gwasanaeth cartref gofal, gwarchod plant neu ofal dydd dros blant, o dan unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Deddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001(**29**) neu yn rhinwedd unrhyw un o'r darpariaethau hynny—

(a) adran 21 (tramgwyddau mewn perthynas â chofrestru);

(b) adran 22 (datganiadau ffug mewn ceisiadau); neu

(c) adran 29(10) (tramgwyddau mewn rheoliadau).

**Tramgwyddau yng Ngogledd Iwerddon**

**67.** Tramgwydd trais rhywiol.

**68.** Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**30**).

**69.** Tramgwydd o dan adran 32(3) o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1969 (ysgogi etc. person absennol).

(**24**) 1995 p.46.
(**25**) 1982 p.45. Mewnosodwyd adran 52A gan adran 161 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (p.33).
(**26**) 1984 p.56.
(**27**) 1995 p.36.
(**28**) Diddymwyd adrannau 17(8) a 71 o Ddeddf 1968 gan Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995.
(**29**) 2001 dsa 8.
(**30**) 1968 p.34 (G.I.). Diwygiwyd Atodlen 1 gan Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Gogledd Iwerddon) 1980; Gorchymyn Herwgydio Plentyn (Gogledd Iwerddon) 1985; Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986. Mae cyfeiriad yng Ngorchymyn Amddiffyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1978 at dramgwyddau o dan Atodlen 1 yn cynnwys tramgwydd o dan Orchymyn Amddiffyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1978.

**70.** Tramgwydd o dan Erthygl 3 o Orchymyn Amddiffyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1978 (ffotograffau anweddus)(**31**).

**71.** Tramgwydd o dan adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 mewn perthynas â nwyddau y gwaherddir eu mewnforio o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876 (gwaharddiadau a chyfyngiadau mewn perthynas â phornograffi) os oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anweddus o blant o dan 16 oed.

**72.** Tramgwydd yn groes i Erthygl 9 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Gogledd Iwerddon) 1980 (ysgogi merch o dan 16 oed i gael cyfathrach rywiol losgachol)(**32**).

**73.** Tramgwydd o dan i Erthygl 15 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth etc.) (Gogledd Iwerddon) 1988 (meddu ar ffotograffau anweddus o blant)(**33**)).

**74.** Tramgwydd o dan Erthygl 63(15), 68 neu 69(9) o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 (tramgwyddau rhwystro a thramgwyddau mewn perthynas â herwgydio plentyn mewn gofal)(**34**).

**75.** Tramgwydd o dan adran 32(3), 140(6) neu 144(3) o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968.

**76.** Tramgwydd o dan Erthygl 132 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 neu adran 14 o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968 (tramgwyddau mewn perthynas â gwarchod plant a gofal dydd)(**35**)).

**77.** Tramgwydd o dan Erthygl 117 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 neu adran 9(1) o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968 (tramgwyddau mewn perthynas â maethu'n breifat).

**78.** Tramgwydd o dan Erthygl 79(3), 81(4), 95(3) neu 97(4) o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 neu adran 127(5) neu 129(3) o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968 (tramgwyddau mewn perthynas â chartrefi gwirfoddol a chartrefi plant).

**79.** Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (manteisio ar ffydd).

### Tramgwyddau eraill

**80.** Unrhyw dramgwydd, heblaw'r tramgwyddau a grybwyllir ym mharagraffau 1 i 79, sy'n cynnwys niwed neu fygythiad niwed i berson arall.

**81.** Tramgwydd yn rhinwedd—

(a) adran 7 o Ddeddf Tramgwyddwyr Rhywiol 1997 (ymestyn awdurdodaeth: Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon)(**36**); neu

(b) adran 16B o Ddeddf Cyfraith Troseddau (Cydgrynhoi) (Yr Alban) 1995 (cyflawni tramgwyddau rhywiol penodol tu allan i'r Deyrnas Unedig)(**37**).

---

(**31**) O.S. 1978/1047 (G.I.17).
(**32**) O.S. 1980/1704 (G.I.6).
(**33**) O.S. 1988/1847 (G.I.17).
(**34**) O.S. 1995/755 (G.I.2).
(**35**) Diddymwyd yr adran hon o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968 a'r adrannau a grybwyllir yn yr is-baragraffau dilynol gan Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995.
(**36**) 1997 p.51.
(**37**) 1995 p.39. Mewnosodwyd adran 16B gan adran 8 o Ddeddf Tramgwyddwyr Rhywiol 1997.

# RHAN II

**1.** Mae'r person perthnasol yn rhiant i blentyn sydd wedi'i wneud ar unrhyw adeg yn destun gorchymyn o dan—

(a) adran 31(1) o'r Ddeddf (gorchymyn gofal a goruchwylio); neu

(b) erthygl 50(1) o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 (gorchymyn gofal a goruchwylio).

**2.** Mae un o'r gorchmynion canlynol wedi'i wneud ar unrhyw adeg mewn perthynas â phlentyn er mwyn symud y plentyn o ofal y person perthnasol neu er mwyn atal y plentyn rhag byw gyda'r person—

(a) gorchymyn o dan adran 31(1)(a) o'r Ddeddf neu orchymyn o dan adran 1(3)(c) neu 7(7)(a) o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1969 (gorchmynion gofal)(**38**);

(b) unrhyw orchymyn arall a fuasai wedi'i ystyried yn orchymyn gofal yn rhinwedd paragraff 15 o Atodlen 14 i'r Ddeddf (darpariaethau trosiannol ar gyfer plant mewn gofal gorfodol) petai wedi bod mewn grym yn union cyn y diwrnod y daeth Rhan IV o'r Ddeddf i rym(**39**);

(c) gorchymyn goruchwylio a osododd ofyniad preswylio o dan baragraff 5 o Atodlen 6 i Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddau (Dedfrydu) 2000(**40**) neu adran 12AA o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1969 (**41**)(gofyniad i fyw mewn llety awdurdod lleol);

(ch) gorchymyn o dan erthygl 50(1)(a) o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995; neu

(d) gorchymyn person ffit, gorchymyn hawliau rhiant neu orchymyn ysgol hyfforddi o dan Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**42**)).

**3.** Mae gofyniad goruchwylio wedi'i osod o dan—

(a) adran 44 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968(**43**); neu

(b) adran 70 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995

ar unrhyw adeg mewn perthynas ag unrhyw blentyn er mwyn symud y plentyn hwnnw o ofal y person perthnasol.

**4.** Mae hawliau a phwerau'r person perthnasol mewn perthynas â'r plentyn wedi'u breinio ar unrhyw adeg mewn awdurdod lleol yn yr Alban—

(a) o dan adran 16 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968(**44**)); neu

(b) yn unol â gorchymyn cyfrifoldebau rhiant o dan adran 86 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995.

**5.** Mae cofrestriad y person perthnasol wedi'i wrthod ar unrhyw bryd mewn perthynas â chartref gwirfoddol neu gartref plant, neu mae'r person hwnnw wedi rhedeg cartref gwirfoddol neu gartref plant neu yr oedd fel arall yn ymwneud â'i reoli, neu yr oedd ganddo unrhyw fuddiant ariannol ynddo, ac mae cofrestriad y cartref hwnnw wedi'i ganslo o dan y canlynol, yn ôl fel y digwydd—

(a) paragraff 1 o Atodlen 5 i'r Ddeddf(**45**);

(b) paragraff 1 neu 4 o Atodlen 6 i'r Ddeddf;

---

(**38**) Diddymwyd adran 1(3)(c) gan Ddeddf Plant 1989. Diddymwyd adran 7(7)(a) gan Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddau (Dedfrydu) 2000 (c. 6).
(**39**) Daeth Rhan IV o'r Ddeddf i rym ar 14 Hydref 1991.
(**40**) 2000 p.6.
(**41**) Diddymwyd adran 12AA gan Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddau (Dedfrydu) 2000.
(**42**) 1968 p.34 (G.I.). Diddymwyd y darpariaethau sy'n ymwneud â'r gorchmynion hyn gan Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 a Gorchymyn Cyfiawnder Troseddol (Plant) (Gogledd Iwerddon) 1998.
(**43**) Diddymwyd adran 44 gan Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995.
(**44**) Diddymwyd adran 16 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968 gan Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995.
(**45**) Mae'r ddarpariaeth hon a'r rhai a grybwyllir yn yr is-baragraff canlynol wedi'u diddymu gan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

(c) adran 127 o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**46**); neu

(ch) Erthygl 80, 82, 96 neu 98 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995.

**6.** Mae gwaharddiad wedi'i osod mewn perthynas â'r person perthnasol o dan—

(a) adran 69 o'r Ddeddf, adran 10 o Ddeddf Plant Maeth 1980(**47**) neu adran 4 o Ddeddf Plant 1958 (y pŵer i wahardd maethu'n breifat)(**48**));

(b) erthygl 110 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 (y pŵer i wahardd maethu'n breifat); neu

(c) adran 10 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 (pwer i wahardd cadw plant maeth).

**7.** Mae'r person perthnasol yn berson y mae hysbysiad ysgrifenedig wedi'i rhoi mewn perthynas ag ef gan Fwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan adran 1(3) o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968 (gwrthod cydsynio bod gofal a chynhaliaeth ar gyfer y plentyn yn cael eu rhoi gan berson)(**49**);

**8.** Mae cofrestriad y person perthnasol wedi'i wrthod ar unrhyw bryd mewn perthynas â darparu gofal dydd neu feithrinfeydd neu waith gwarchod plant neu mae unrhyw gofrestriad o'r fath a oedd gan y person hwnnw wedi'i ganslo o dan, yn ôl fel y digwydd—

(a) adran 1 neu 5 o Ddeddf Rheoleiddio Meithrinfeydd a Gwarchodwyr Plant 1948(**50**));

(b) Rhan X neu XA o'r Ddeddf(**51**);

(c) Rhan XI o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995; neu

(ch) adran 11(5) neu 15 o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**52**).

**9.** Mae cofrestriad y person perthnasol wedi'i wrthod ar unrhyw adeg neu mae cofrestriad o'r fath wedi'i ganslo—

(a) o dan adran 62 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968 (cofrestru sefydliadau preswyl a sefydliadau eraill)(**53**); neu

(b) mewn perthynas â gwasanaeth cartref gofal, gwarchod plant neu ofal dydd ar gyfer plant, o dan Rhan I o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001.

**10.** Mae'r person perthnasol wedi bod, ar unrhyw adeg, yn destun gorchymyn derbyn, gorchymyn gwarcheidwaeth, gorchymyn goruchwyliaeth a thriniaeth neu orchymyn i'w ryddhau yn ddiamod yn unol ag adran 5 o Ddeddf Gweithdrefn Troseddau (Gorffwylledd) 1964(**54**) neu adran 6, 14 neu 14A o Ddeddf Apêl Troseddau 1968(**55**)), yn ôl fel y digwydd.

(**46**) Diddymwyd adran 127 gan Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995.
(**47**) Diddymwyd Deddf Maethu Plant 1980 gan Ddeddf Plant 1989.
(**48**) Diddymwyd Rhan I o Ddeddf Plant 1958 gan Deddf Plant Maeth 1980.
(**49**) Diwygiwyd adran 1(3) gan Atodlen 16 i Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972 (O.S. 1972/1265 (G.I.14) ac fe'i diddymwyd gan Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995.
(**50**) 1948 p.53. Diwygiwyd adran 1 gan adran 60 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Iechyd y Cyhoedd 1968 (p.46) ac fe'i diddymwyd gan Ddeddf Plant 1989.
(**51**) Peidiodd rhan X o Ddeddf Plant 1989 â bod yn gymwys i Gymru yn ddarostyngedig i ddarpariaeth trosiannol, darpariaeth dros dro a darpariaeth ynghylch eithriadau yn yr Atodlen i Orchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 8 (Cymru) a Darpariaethau Trosiannol, Darpariaethau ynghylch Eithriadau a Darpariaethau Canlyniadal) 2002 (O.S. 2002/920).
(**52**) Diddymwyd yr adrannau hyn gan Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995.
(**53**) Diwygiwyd adran 62 gan adran 3 o Ddeddf Sefydliadau Cofrestredig (Yr Alban) (p.40).
(**54**) 1964 p.84. Amnewidiwyd adran 5 gan adran 3 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Gorffwylledd ac Anghymhwyster i Bledio)1991(p.25).
(**55**) 1968 p.19. Amnewidiwyd adrannau 6 ac 14 a mewnosodwyd adran 14A gan adran 4 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Gorffwylledd ac Anghymhwyster i Bledio)1991.

# RHAN III

**1.** Mae'r person perthnasol wedi'i gynnwys yn y rhestr o bersonau sy'n cael ei chadw o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 (rhestr o'r rhai y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn barnu eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant)(**56**).

**2.** Mae'r person perthnasol wedi'i gynnwys, ar y seiliau a grybwylliwyd yn is-adran (6ZA)(c) o adran 218 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**57**)) yn y rhestr a gedwir at ddibenion rheoliadau a wnaed o dan is-adran (6) o'r adran honno (rhestr o'r rhai sydd wedi'u gwahardd neu wedi'u cyfyngu rhag addysgu).

**3.** Mae'r person perthnasol wedi'i gynnwys, ar seiliau anaddasrwydd i weithio gyda phlant, mewn unrhyw rhestr a gedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bersonau sy'n ddarostyngedig i ddatgymhwysiad a osodir o dan adran 470 neu 471 o Ddeddf Addysg 1996(**58**) (datgymhwyso personau rhag bod yn berchnogion ar ysgolion annibynnol neu rhag bod yn athrawon neu gyflogeion mewn unrhyw ysgol.)

(**56**) 1999 p.14.

(**57**) 1988 p.40; mewnosodwyd is-adran (6ZA) gan adran 5 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 a diwygiwyd is-adran (6) gan yr adran honno a chan adran 290(3) o Ddeddf Addysg 1993 (p.35); Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) 2000 (O.S. 2000/2419) yw'r rheoliadau cyfredol a wnaed o dan is-adran (6).

(**58**) 1996 p.56.